



## **Dileu rhwystrau rhag defnyddio systemau adnabod electronig ar gyfer preiddiau defaid**

### **Adroddiad ar ganfyddiadau**

#### **Medi 2015**

##### **Crynodeb Gweithredol**

Nod y prosiect peilot hwn oedd gweithio gyda hyd at 1,500 o fusnesau ffermio defaid cymwys i ddeall yn well eu pryderon ynghylch defnyddio technolegau EID a'u galluogi i gael hyd i wybodaeth, hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â'r manteision ymarferol o gofnodi electronig. Defnyddiodd y prosiect gyfuniad o hyfforddiant ar-lein a darparodd gymhelliant ariannol o £500 i gymryd rhan ac i annog y defnydd o dechnolegau a fyddai yn y pen draw yn arwain at well effeithlonrwydd gweithredol a gwell perfformiad. Darparodd y ffermwyr defaid a fu'n cymryd rhan ystod o wybodaeth a data a gafwyd ar-lein trwy'r broses gofrestru ar-lein, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant ar y we a thrwy arolygon dilynol. Roedd amseriad y prosiect (Tachwedd 2014 - Awst 2015) yn golygu bod yr wybodaeth a gasglwyd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar agweddau a phrofiadau cyfranogwyr blaenorol ynghylch cofnodi (yn electronig neu â llaw), ar eu profiadau wrth ddefnyddio offer a meddalwedd EID hyd yma fel rhan o'r prosiect hwn a'r hyn y bydden nhw'n gobeithio ei gyflawni trwy barhau i ddefnyddio EID ar eu diadelloedd. Cyflwynir eu hadborth yn yr adroddiad prosiect hwn. Ni wnaeth y prosiect ymdrech i gasglu data am berfformiad diadelloedd.

Cyhoeddwyd y prosiect ym mis Medi 2014, a rhedodd o fis Tachwedd 2014 tan fis Awst 2015. Denodd ddiddordeb sylweddol gan ffermwyr defaid a chyrrhaeddwyd y targed o ran nifer y cyfranogwyr o fewn tair wythnos. Oherwydd yr ymateb cyflym a'r galw am y prosiect, roedd y cyllid a fwriadwyd ar gyfer codi ymwybyddiaeth ar gael i'w wario ar gyfranogwyr ychwanegol. Cofrestrodd cyfanswm o 1,966 o fusnesau i gymryd rhan a llwyddodd 1,716 ohonynt i gwblhau'r prosiect.

Roedd y cyfranogwyr yn groestoriad eang o gynhyrchwyr defaid o bob rhan o Gymru. Ar gyfartaledd, roedd 700 o ddefaid magu ym hob diadell o eiddo'r cyfranogwyr, ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddiadelloedd masnachol (72%),

roedd gan 26% ddiadelloedd pedigri a masnachol a dim ond 2% ohonynt oedd â diadelloedd pedigri yn unig. O'r holl gyfranogwyr, dim ond 103 (6%) oedd â rhywfaint o brofiad blaenorol o ddefnyddio EID. Felly, i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr roedd defnyddio offer EID yn brofiad cwbl newydd.

Roedd y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth (TG) yn gyffredinol ymhlith yr holl gyfranogwyr yn uchel; roedd 90% ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron, y rhyngwyd ac ebost. Roedd y defnydd o dechnolegau mwy newydd hefyd yn gymharol uchel gyda bron i hanner yn defnyddio ffonau clyfar a llechi. Yn ogystal, roedd defnydd y cyfranogwyr o wasanaethau ar-lein yn gymharol uchel gyda mwy na 70% yn defnyddio safleoedd sydd â dolenni uniongyrchol i'w gweithgaredd busnes. Felly, mae'n amlwg fod ffermwyr yn symud tuag at defnyddio technolegau tebyg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Mae nifer uchel o gyfranogwyr a oedd hefyd yn rhedeg menter wartheg yn golygu bod gan y ffermydd hynny brofiad hefyd o gofnodi ar-lein trwy BCMS/CTS. Mae yna gyfle felly i adeiladu ar y gallu cynyddol hwn ac i annog defnydd pellach o gofnodi EID cyfrifiadurol.

O ran yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio cofnodi EID ar gyfer eu diadelloedd, nid yn annisgwyl, cost a chymhlethdod y cyfarpar oedd y prif rwystr a nodwyd gan ffermwyr defaid, ac roedd llawer yn amau a oeddynt yn gwybod digon am gofnodi EID i gyfiawnhau'r buddsoddiad.. Roedd darparu cymhelliant ariannol yn gyfnewid am gyfranogiad yn fodd i ysgogi cryn ddiddordeb o'r cychwyn a bu'n gymorth i oresgyn y rhwystr cyntaf hwnnw rhag cymryd rhan. Dywedodd dros 70% o gyfranogwyr ei bod yn annhebygol y byddent wedi dechrau defnyddio EID heb gymorth y prosiect.

Erbyn mis Awst 2015, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi defnyddio EID ar gyfer darllen tagiau a chofnodi symudiadau ac, er taw dyddiau cynnar yw hyn i lawer o ran y cyfleoedd i'w ddefnyddio, roedd cyfranogwyr wedi defnyddio EID i gofnodi ystod eang o dasgau mewn perthynas â rheoli diadell. Roedd tua 35% o'r cyfranogwyr wedi ei ddefnyddio i gofnodi pob dafad ar eu daliad er mwyn sefydlu eu cofnodion EID. Mae cofnodi'r holl ddefaid ar ddaliad yn sail i gofnodi diadell yn fanylach ac felly mae hyn, ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynlluniau ffermwr ar gyfer defnyddio EID yn y dyfodol i gofnodi diadell yn gam bach ond cadarnhaol iawn tuag at y defnydd ehangach o EID fel modd i gefnogi rheoli diadell.

Llwyddodd y prosiect i greu carfan sylweddol o ffermwyr defaid a oedd wedi cymryd y camau cyntaf tuag at gofnodi EID. Fodd bynnag, mae yna waith i'w wneud o hyd i'w hannog i barhau i ddefnyddio cofnodi EID fel y bydd enillion effeithlonrwydd yn gwbl amlwg. Roedd adborth yn dangos y byddai rhagor o wybodaeth am yr hyn y gellid ei wneud â darllenwyr a meddalwedd EID a sut i wneud y defnydd gorau ohonynt yn ddefnyddiol dros ben. Hefyd, nodwyd cefnogaeth bellach a pharhaus gan gyflenwyr eu cyfarpar EID, ynghyd â chyfleoedd hyfforddiant a digwyddiadau ymarferol ar y fferm a chymryd rhan mewn grwpiau trafod er mwyn cyfnewid gwybodaeth a syniadau. Darparodd llawer o'r cyflenwyr hyfforddiant a digwyddiadau ar ffermydd drwy gydol y prosiect ac mae'r rhain wedi parhau ers i'r prosiect ddod i

ben, gan roi cyfle i ffermwyr dderbyn hyfforddiant penodol sy'n gysylltiedig â'r cyfarpar / meddalwedd penodol y maent yn eu defnyddio.

Felly, mae'n amlwg fod awydd am ragor o hyfforddiant a throsglwyddo gwybodaeth a chyfle i gyflawni hyn trwy gyfrwng y gwasanaethau sydd ar gael drwy raglenni yn y dyfodol megis Cyswllt Ffermio. Bu'r data a gasglwyd am y person sy'n tueddu i ddefnyddio/dadansoddi data am y ddiadell ar y cyfrifiadur hefyd yn fodd i gael cip ar ddyletswyddau unigolion yn y fenter ddefaid ac yn gyfle i ehangu trosglwyddo a chyfnewid gwybodaeth ynghylch cofnodi EID i aelodau iau o'r teulu ac i bartner/priod y ffermwr.

Roedd cyfnod y prosiect yn golygu nad oedd modd mesur manteision cofnodi EID, ac ni ragwelwyd hynny. Serch hynny, dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod cofnodion EID yn golygu manteision cynnar o ran arbed amser, hwylustod casglu data a chywirdeb y data. Byddai'r gallu i gofnodi manylion adnabod anifeiliaid heb orfod trafod yr anifeiliaid hefyd wedi bod yn fanteisiol o ran gwelliannau mewn iechyd a diogelwch ar y fferm.

Mae'r gallu/angen i fesur buddion hefyd yn golygu cyfleoedd yn y dyfodol o ran y gallu i fesur effaith cyflwyno cofnodi EID neu unrhyw dechnoleg newydd mewn termau real (arbed amser/gwerth data/gwell perfformiad gan ddiadell) pan all gymryd cryn amser i'r buddion hynny ddod i'r amlwg ac, yn ail, er mwyn i'r buddiannau gael eu mesur yn ariannol o ran perfformiad busnes. Felly, byddai ystyriaeth o weithgareddau neu ymyriadau sy'n cefnogi gweithgarwch dros gyfnod llawer hwy i alluogi casglu data parhaus a gwneud asesiadau cywir o effaith y newidiadau dros gyfnod o amser yn ddefnyddiol.

I grynhoi, rhoddodd y prosiect hwn gyfle i dros 1,700 o ffermwyr defaid yng Nghymru gymryd y cam cyntaf tuag at ddefnyddio cofnodi EID fel rhan o'u rheolaeth ddiadell ac i wella eu gallu i ddefnyddio TG. Llwyddodd i symud un o'r prif rwystrau (ariannol) a oedd yn atal ffermwyr rhag cymryd rhan a bu'n gymorth iddynt ddeall yn well sut gellir defnyddio EID i'w helpu i gofnodi gwybodaeth am reoli diadell. Mae'r profiadau a dealltwriaeth a enillwyd yn ystod y prosiect yn darparu cyfleoedd clir i wneud gwaith dilynol pellach a all adeiladu ar y gallu EID/TG cynyddol ymhlith y garfan hon o ffermwyr ac i ledaenu eu profiadau yn ehangach i annog a chefnogi rhagor o ffermwyr i ddefnyddio cofnodi EID i reoli eu diadelloedd. Felly, mae'r prosiect peilot hwn wedi darparu llwyfan a fydd yn sail i fentrau yn y dyfodol fel y gall y sector gymryd camau tuag at ddatblygu sgiliau a galluoedd a fydd yn gymorth i wneud y fferm yn fwy effeithlon.



Mae'r prosiect hwn wedi cael arian trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.